**PAPURAU BUSNES**

**Rhan 1 - Adran B**

## CWESTIYNAU LLAFAR Y CYNULLIAD I'W HATEB AR 30 MEHEFIN 1999

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

**Cwestiynau a gyflwynwyd ar 16 Mehefin 1999**

**GOFYN I YSGRIFENNYDD Y CYNULLIAD DROS GYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD**

**1. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddo i gyflwyno llechres lygredd gynhwysfawr ar gyfer Cymru er mwyn gallu monitro llygredd aer a mesurau i ddelio â hynny yn effeithiol. (OAQ252JS)

**2. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** Pa ddiwygiadau sydd wedi'u cynllunio yn y rhaglen gyfredol ar gyfer adeiladu cefnffyrdd yng Nghymru, ac a yw'n barod i newid blaenoriaethau yn y rhaglen i roi mwy o bwyslais ar gysylltiadau de-gogledd yng Nghymru, gan gynnwys y Cymoedd. (OAQ277JS)

**3. Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** A yw Ysgrifennydd y Cynulliad yn gallu rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf ar y ddogfen ymgynghorol ar gyfarwyddyd cynllunio mwynol (MPG3). (OAQ275VB)

**4. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Pa gynnydd a wneir tuag at adeiladu ffordd osgoi i Dalgarth. (OAQ258VB)

**5. David Davies (Trefynwy);** A yw'n ymwybodol o bryderon trigolion Llanfarthin yngln â'r Datblygiad Parc Thema arfaethedig. (OAQ262JS)

**6. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drefniadau sydd ganddo ar gyfer paratoi Strategaeth Datblygu Cynaliadwy i'r Cynulliad. (OAQ255JS) [w]

**7. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Pa gynlluniau sydd ganddo i sefydlu polisi system drafnidiaeth inetgredig ar gyfer Cymru. (OAQ272VB)

**8. Lynne Neagle (Tor-faen);** Beth yw'r amserlen ar gyfer adolygu Cynllun Rheoli'r DU ar gyfer Mewnforio ac Allforio Gwastraff, a pha fewnbwn fydd gan y Cynulliad i'r adolygiad hwnnw. (OAQ259JS)

**9. Janice Gregory (Ogwr);** Pa gynlluniau sydd ganddo i gefnogi gweithrediad cynllun Teithio Cyflym Integredig De Cymru (SWIFT). (OAQ276VB)

**10. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa gynlluniau sy'n cael eu paratoi i bennu targed ar gyfer cyfanswm yr ynni a gynhyrchir o adnoddau adnewyddadwy yng Nghymru. (OAQ268VB)

**11. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Pa gynlluniau sydd ganddo i adolygu canllawiau cynllunio awdurdodau lleol. (OAQ257VB)

**12. Carwyn Jones (Pen-y-bont);** Beth yw ei gynlluniau i sicrhau cynrychiolaeth gref i Gymru ar yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol. (OAQ261VB) [R]

**13. Michael German (Dwyrain De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddo i greu Awdurdod Trafnidiaeth integredig i Gymru, a pha gamau fyddai'n angenrheidiol i greu Awdurdod o'r fath. (OAQ273VB)

**14. David Davies (Trefynwy);** A fydd e'n sicrhau y ceir Asesiad Effaith Amgylcheddol yn Nyffryn Wysg cyn y rhoddir cefnogaeth i'r ganolfan ragoriaeth arfaethedig gan Undeb Rygbi Cymru. (OAQ263JS)

**15. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A fydd e'n comisiynu ymchwil bellach i roi amddiffynfeydd gwynt ar hyd rhan Llansawel o'r M4. (OAQ253JS)

**16. Christine Chapman (Cwm Cynon);** Pa gamau pellach a gynigir ganddo i wella tir yr hen waith Phurnacite yn Abercwmboi, a'r tir cyfagos. (OAQ264VB)

**17. Christine Humphreys (Gogledd Cymru);** A fydd e'n amlinellu'r strategaeth i'w gweithredu er mwyn diwallu targedau'r Llywodraeth ar gyfer ailgylchu yng Nghymru. (OAQ274JS)

**18. Helen Mary Jones (Llanelli);** Gofyn i'r Ysgrifennydd dros yr Amgylchedd pa drefniadau y mae'n bwriadu eu gwneud mewn perthynas â Chynghorau Cymuned a Gwerth Gorau. (OAQ271VB)

**19. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A fydd e'n gwneud datganiad ar effaith ad-drefnu

diweddar Llywodraeth Leol ar amcanion effeithiolrwydd, effeithlonrwydd, atebolrwydd ac agosatrwydd at y bobl. (OAQ278VB)

**20. Jane Davidson (Pontypridd);** Yn sgil datblygiadau tai newydd ar hyd yr A473, a fydd e'n rhoi ystyriaeth i gynnwys ffordd osgoi arfaethedig Pentre'r Eglwys yn y cynlluniau blaenoriaeth i'w cefnogi gan y Cynulliad ar ôl 1 Gorffennaf 1999. (OAQ270VB)

**21. Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau y mae wedi'u derbyn yngln â ffermydd gwynt newydd yng Nghymru, ac a fydd e'n gwneud datganiad. (OAQ265VB)

**22. Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa welliannau i seilwaith trawsgludiaeth Cymru fydd e'n eu cynnig yn y flwyddyn gyfredol. (OAQ266JS)

**23. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa drefniadau sydd ar waith i amddiffyn buddiannau ac eiddo trigolion yr ardaloedd sy'n ffinio ag aber yr Afon Taf. (OAQ280JS)

**Cwestiynau a gyflwynwyd ar 17 Mehefin 1999**

**24. Alison Halford (Delyn) :** A fydd yn ystyried gweithredu ar argymhelliad yr Sefydliad Materion Cymreig i ddechrau gwelliannau i’r ffyrdd a fydd yn torri o awr amser y daith rhwng y Gogledd a’r De. ( OAQ283JS ) [R]

**Cyflwynwyd y cwestiwn ar 22 Mehefin 1999**

25. **Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Pa gynlluniau sydd ar y gweill er mwyn sicrhau bod digon o arwyddion effeithiol ar gyfer safle’r Cynulliad Cenedlaethol ar yr heolydd sy’n arwain at Gaerdydd ac ar y rhai o fewn ardal Caerdydd? (OAQ298VB)

**Cwestiynau a gyflwynwyd ar 23 Mehefin 1999**

**26. Mick Bates (Maldwyn);** Faint o gartrefi yng Nghymru sydd heb drydan o’r prif gyflenwad a pha gymorth sydd i’w gael i’w darparu â thrydan o’r prif gyflenwad. (OAQ324JS)